

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 25 Mawrth 2021

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: POLISI

[Llwybr Sgrinio'r Clyw i Blant Ifanc yn yr Ysgol](#)

Dyddiad Adolygu: Medi 2022

I'w weithredu gan: Byrddau Iechyd

Camau i'w cymryd erbyn: Cyn gynted â phosibl

Anfonir gan Llywodraeth Cymru

Enw(au) Cyswllt GIGC yn Llywodraeth Cymru:

Sarah O'Sullivan-Adams
Pennaeth Polisi Synhwyrdd
Y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol
Sarah.o'sullivan-adams@llyw.cymru

Dogfennau amgaaedig: Dim

Mae'r ddarpariaeth ym maes Sgrinio'r Clyw i Blant Ifanc yn yr Ysgol ledled Cymru yn amrywio ar hyn o bryd, gydag anghysondebau mewn arferion sgrinio ar draws gwahanol fyrddau iechyd. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Sgrinio'r Clyw i Blant Ifanc yn yr Ysgol i sicrhau bod Plant yng Nghymru'n cael cynnig prawf sgrinio'r clyw yn y flwyddyn ysgol y maent yn cyrraedd pump oed. Nodau cyffredinol y grŵp oedd:

- Cefnogi byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau darbodus ac effeithiol sy'n cydymffurfio ag argymhelliad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ar gyfer sgrinio'r clyw mewn plant.
- Sefydlu llwybr cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer sgrinio'r clyw mewn ysgolion a rheoli atgyfeiriadau sgrinio hyd at a chan gynnwys atgyfeiriad rheoli gofal clyw.
- Manteisio ar sgrinio'r clyw i blant ifanc yn yr ysgol gan ddefnyddio safonau sydd wedi ennill eu plwyf, personél, hyfforddiant, offer, cyfleusterau a chasglu data yn unol â'r Safonau Ansawdd Awdioleg cenedlaethol.
- Gwneud argymhellion ar gyfer casglu data a safonau archwilio, i helpu i ddatblygu archwiliad cenedlaethol o sut y mae plant â nam ar eu clyw yn cael eu nodi yn dilyn sgrinio clyw babanod newydd a'r sgrinio yn yr ysgol, i lywio'r gwaith o ddatblygu llwybrau gofal clyw.
- Cynghori ar sut y dylid integreiddio'r broses sgrinio a diagnostig â nodi a rheoli Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
- Cynghori ar sut y dylai'r ffrwd waith gyd-fynd â *Chymru Iachach* ac integreiddio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Lluniodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Weithdrefn Weithredu Safonol i gefnogi dull cyson o gyflawni arfer diogel a ffurflen archwilio i ddarparu ar gyfer monitro cenedlaethol effeithiol ar gyflawni amcanion sgrinio.

Y Camau Nesaf:

Dylai Byrddau Iechyd ddechrau gweithredu'r llwybr newydd cyn gynted â phosibl a cheisio ei roi ar waith yn llawn erbyn mis Ebrill 2022. Mae Llywodraeth Cymru am i fyrddau iechyd ddilyn yr argymhellion isod a gallu darparu diweddariadau bob tri mis o fis Ebrill 2021.

Bydd Byrddau Iechyd yn ymwybodol bod dwy garfan o blant y bydd angen dal i fyny â hwy oherwydd pandemig Covid-19. Bydd cyfathrebu ynghylch sut y caiff hyn ei reoli yn dilyn gyda'r "Weithdrefn Weithredu Safonol" a'r dogfennau cysylltiedig.

Argymhellion:

1. Gwasanaeth cenedlaethol sgrinio'r clyw i blant ifanc yn yr ysgol i'w datblygu a'i gyflwyno ledled Cymru a fydd yn cynnwys y canlynol:

- Cynnig prawf clyw i bob disgybl a fydd yn cyrraedd pump oed yn eu blwyddyn ysgol gyfredol.
- Gallai disgybl fod yn absennol o'r ysgol ar unrhyw adeg yn ystod y llwybr sgrinio, felly, dylid gwneud uchafswm o dri ymweliad â disgybl unigol. Rhaid i un o'r tri chyfle ymweld fod yn gynnig penodol i'r teulu ar gyfer apwyntiad gyda gwasanaeth sgrinio'r clyw i blant ifanc yn yr ysgol.
- Gwasanaeth sgrinio'r clyw i'w reoli gan wasanaeth awdioleg lleol y byrddau iechyd, a'i fonitro a'i archwilio gan y Grŵp Penaethiaid Gwasanaeth Awdioleg.

- Disgyblion sy'n methu'r sgrinio i gael eu hatgyfeirio at awdiolegydd i wneud prawf clyw mwy cynhwysfawr i nodi'r rhai sydd â'r cyflwr targed, a'r rhai nad ydynt yn ei fethu ond a fyddai'n dal i elwa o ymyriad.
- Y broses genedlaethol a lleol i'w datblygu a sicrhau bod set ddata yn cael ei chasglu fel mater o drefn. Yr holl ddata i'w gasglu gyda data cenedlaethol gan Grŵp Penaethiaid Gwasanaeth awdioleg. Bydd y mesurau hyn yn galluogi sgrinio i gael ei werthuso yn lleol ac yn genedlaethol o safbwynt dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt ee y gyfran sy'n achosion targed, sensitifedd, penodolrwydd, gwerth rhagfynegol, cwmpas a'r nifer sy'n cymryd rhan.

2. Gwasanaeth cenedlaethol sgrinio'r clyw i blant ifanc yn yr ysgol i lynu at yr eitemau canlynol:

- Defnyddio sgrinio awdiometreg tŵn bur yn y prawf ar lefelau o 0.5, 1, 2 and 4 KHz. Profi'r glust dde a'r glust chwith yn 30/25/25/ 25 dBHL. Y meini prawf i basio yw ymateb ar bob un o'r lefelau hyn.
- Cofnodi canlyniad y prawf sgrinio ar y gronfa ddata genedlaethol ar gyfer iechyd plant.
- Diffinnir y cyflwr targed fel colled barhaol sylweddol i'r clyw ar y ddwy ochr neu ar un ochr. Diffinnir colled sylweddol i'r clyw fel nam parhaol ar y clyw yn ystod plentyndod o radd gymedrol neu fwy [h.y. trothwyon canfod >40 dB lefel clyw (HL) gyda chyfartaledd ar draws 0.5, 1, 2 a 4 kHz] yn y naill glust neu'r llall.
- Mae angen targed diffiniedig i ganfod perfformiad gweithredu'r sgrinio ac mae'r cyfartaledd o >40dB yn y naill glust neu'r llall yn rhesymol yn glinigol. Er hynny, dylai gwasanaethau awdioleg wneud diagnosis hefyd o golledion clyw nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn. Enghraifft eithafol fyddai clyw normal ar bob amledd ac eithrio trothwyon o 80dBHL @ 2 a 4kHz. Ni fyddai hyn yn bodloni'r cyflwr targed ond byddai'n bwysig gwneud diagnosis er mwyn i'r disgybl gyflawni ei botensial addysgol a chymdeithasol llawn.
- Grŵp Penaethiaid Gwasanaeth Awdioleg i adolygu'r gwasanaeth flwyddyn ar ôl iddo fod ar waith ac addasu mewn ymateb i'r canfyddiadau, gan gynnwys gwerthuso'r llwybr yn erbyn dangosyddion perfformiad cydnabyddedig.

Diffiniadau:

Cyfran sy'n achosion targed - Nifer y plant â chanlyniad dilynol sy'n bodloni'r diffiniad o'r achos targed, i bob 1,000 o blant a sgriniwyd.

Sensitifedd - Y nifer â cholled clyw a gadarnhawyd a nodwyd yn gywir fel rhai cadarnhaol adeg sgrinio.

Penodolrwydd - y Nifer a gadarnhawyd fel rhai heb unrhyw golled i'r clyw a nodwyd yn gywir fel rhai negyddol adeg sgrinio.

Gwerth Rhagfynegol - y gyfran o achosion wedi'u hatgyfeirio yn dilyn prawf sgrinio cadarnhaol y cafwyd bod arnynt golled clyw wedi'i chadarnhau.

Llwybr Cenedlaethol Cymru

Sgrinio'r Clyw

- Ar gyfer pob plentyn a fydd yn cyrraedd pump oed yn y flwyddyn ysgol gyfredol
- Rhoddwyd cydsyniad y rhiant/gwarcheidwad
- Awdiometreg sgrinio tôn bur (0.5, 1, 2 and 4 KHz,) De a Chwith ar 30/25/25/ 25 dBHL
- Cofnodi'r canlyniad ar y gronfa ddata genedlaethol ar gyfer iechyd plant

**DDIM YN GALLU
PROFI**

**YN ABSENNOL /
DDIM AR GAEL** neu
FETHU
Ddim ymateb yn
 unrhyw un o
 30/25/25/ 25 dBHL yn
 y glust Dde neu

PASIO

Clyw De a Chwith =
ymateb ar 30/25/25/ 25
dBHL

Y SGRINIWR i benderfynu a
ellir ailbrofi'r plentyn neu a
ddylai adael y llwybr a
chael ei atgyfeirio at
awdiolen

**AILBROFI
unwaith**

**METHU adeg
ailbrofi**
Ddim ymateb yn
 unrhyw un o
 30/25/25/ 25
 dBHL yn y glust
 Dde neu Chwith

**ABSENNOL/
DDIM AR GAEL
adeg ailbrofi**
Cynnig ailsgrinio
 yn unol â
 protocol lleol

PASIO adeg ailbrofi
Clyw De a Chwith =
ymateb ar 30/25/25/
25 dBHL

12
wythnos
ysgol o
gyswllt
cyntaf y
sgriniwr â'r
plentyn


**ATGYFEIRIO AT awdiolog i ystyried
asesiad** yn unol â safonau ansawdd
awdiolog. Hysbysu'r rhiant/gwarcheidwad
am yr atgyfeiriad.

RHYDDHAU

Hysbysu'r rhiant/gwarcheidwad fod y
plentyn wedi pasio'r sgrinio. Atgyfeirio at
awdiolog a/neu feddyg teulu os oes
pryderon yn y dyfodol.

DS: Gallai plant fod yn absennol yn ystod y llwybr. Pan fydd y cyswllt cyntaf wedi'i wneud, rhaid gwneud uchafswm o dri ymweliad â phlentyn unigol. Rhaid i un o'r tri chyfle fod yn gynnig penodol i'r teulu ar gyfer apwyntiad.

Trosolwg o broses lawn y llwybr sgrinio¹



¹Y llwybr hwn i'w gynnwys ym mhecyn hyfforddiant y sgriniwr